## Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

## Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ,
## Ystafell bwyllgor Peris, Cyngor Gwynedd

**Presennol:** **Cyngor Gwynedd:**
Cyng. S Churchman
Cyng. O. P Huws
Cyng. W. G Roberts
Cyng. J. W Williams
Cyng. Owain Williams

**Cyngor Sir Ynys Môn:**
Cyng. W. J Chorlton, Vice Chair
Cyng. K. P Hughes
Cyng. C McGregor
Cyng. E Roberts

**Swyddogiom:**
**Cyngor Gwynedd:**
Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio
Gareth Jones, Rheolwr Gwasanaeth Amgylcheddol
Nia Haf Davies, Rheolwr UPC ar y Cyd
Heledd Hughes, Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio, UPC ar y Cyd
Rhun ap Gareth, Uwch Gyfreithier

**Cyngor Sir Ynys Môn:**
Jim Woodcock, Pennaeth Cynllunio a Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd

**Eraill:**
Peter Burley, Cyfarwyddwr Cymru, Arolygaeth Cynllunio
Mark Newey, Pennaeth Cangen Cynllunio, Llywodraeth Cymru
Richard Jenkins, Uwch Swyddog Cynllunio, Arolygaeth Cynllunio
Bob Newton, Llywodraeth Cymru

**Ymddiheuriadau:** Cyng. T Edwards, Cyngor Gwynedd

Cyng. A Pierce, Cyngor Gwynedd
Cyng. L Davies, Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. H. E Jones, Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. H. W Thomas, Cyngor Sir Ynys Môn

---

Roedd aelodau o'r Panel yn dymuno datgan gair o gydymdeimlad gyda'r Cyng. T Edwards a'i deulu.

Ymhellach fe gyfeiriwyd y Cadeirydd at y ffaith fod y cyfarfod yn cael ei gynnal ar Ddiwrnod Cadoediad a gofynnwyd i funud o dawelwch gael ei barchu am 11 o'r gloch.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Fel nodwyd uchod.

**2. DATGANIAD O FUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. RÔL A CHYFRIFOLDEBAU CYNGHORWYR YN Y BROSES AC ARCHWILIO'R CYNLLUN A PHROFI'I GADERNID**

Rhoddwyd cyflwyniad gan Peter Burley, Cyfarwyddwr Cymru, Yr Arolygaeth Cynllunio ar y broses o gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Yn gyntaf, pwysleisiwyd y gwahaniaeth rhwng y broses paratoi CDU a CDLl. Yna fe roddwyd amlinelliad cryno o'r camau angenrheidiol er mwyn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, a oedd fe a ganlyn:-

- Cytundeb Cyflawni (Datganiad Cynnwys Cymunedau)
- Casglu gwybodaeth a chreu amcanion
- Dogfennau Cyn-Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol
- Cynllun Adneuo
- Archwiliad Annibynnol
- Adroddiad yr Arolygydd
- Mabwysiadu
- Monitro ac Adolygu

Pwysleiswyd Mark Newey, Pennaeth Cangen Cynlluniau, Llywodraeth Cymru (LlC) negeseuon allweddol ar ran Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r broses o baratoi CDLl. Pwysleisiwyd fod LlC yn chwarae rhan eithriadol o bwysig er mwyn cynorthwyo a chynghori awdurdodau tuag at fabwysiadu'r CDLl. Nodwyd y byddai LlC yn fodlon cyfarfod/cysylltu gyda Swyddogion/Aelodau o'r Cyngor yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun, fe ddylid edrych ar LlC fel 'ffrind critigol'.

Amlygwyd y ffaith ei fod yn bwysig i'r Cynllun roi ystyriaeth i'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol, ac y dylai unrhyw bolisïau sydd yn deillio o'r Cynllun fod yn seiliedig at sail tystiolaeth gadarn.

Pwysleisiwyd ei fod yn eithriadol o bwysig i geisio cael cytundeb gwleidyddol o fewn yr Awdurdod ac y byddai hynny o gymorth gyda symud ymlaen hefo'r Cynllun. Bydd gan aelodau lleol rôl eithriadol o bwysig wrth wneud penderfyniadau cryf a phendant yn ystod cyfnodau penodol a dylai unrhyw benderfyniad a wneir fod yn seiliedig ar dystiolaeth a rhesymeg.

Wrth baratoi'r CDLl dylid ymdrin â'r mater mewn modd holistig a dylid hefyd defnyddio elfen o realiti.

Wrth gasglu'r sail tystiolaeth mae'n bwysig nodi o'r man cyntaf y wybodaeth sydd yn angenrheidiol, ac adnabod y wybodaeth sydd ei angen er mwyn cefnogi'r strategaeth.

Cwestiynwyd Mark Newey mewn perthynas â'r rôl y mae Llywodraeth Cymru yn ei gymryd yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun. Mewn ymateb, fe ddylid edrych ar LlC fel y cynorthwywr. Fodd bynnag os yw LlC o'r farn fod y Cynllun ddim yn dilyn y llwybr cywir mae ganddynt hwy'r pŵer i 'alw'r Cynllun i mewn' os credir nad yw'r Cynllun yn seiliedig ar sail dystiolaeth gadarn.

Cwestiynwyd y term 'sail tystiolaeth gadarn', yn nhermau beth a olygir gyda'r term 'sail tystiolaeth gadarn'? Mewn ymateb pwysleisiwyd na beth sydd yn angenrheidiol yw tystiolaeth sydd yn mynd i gael ei baratoi er mwyn profi/argyhoeddi fod y Cynllun yn seiliedig ar y dystiolaeth gywir. Os oes yna unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb fe ddylid asesu'r wybodaeth yn erbyn y dystiolaeth a gasglwyd.

## 5. EGWYL FYR

## 6. COFNODION

Nodwyd y Cyng. C McGregor nad oedd yn bresennol yn ystod y cyfarfod blaenorol o'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a fod angen cywiro'r cofnodion i adlewyrch hynny.

## 7. TREFNIADAU CYFRANOGIAD CYHOEDDUS

Adroddiad ar lafar gan NHD yn amlinellu'r broses a ddefnyddir er mwyn cysylltu hefo'r cyhoedd. Mae grwpiau penodol anodd eu cyrraedd yn cael eu targedu. Angen derbyn cyfranogiad y cyhoedd er mwyn sicrhau eu bod yn hapus hefo'r weledigaeth, prif amcanion a materion strategol. Mae yna gyfarfodydd wedi cael ei drefnu hefo grwpiau Plant a Phobl Ifanc yn Gwynedd a Môn, Grwpiau Pobl Hyn yng Ngwynedd a Môn, Partneriaethau Tai a Grwpiau Anabledd.

**Sylwadau**

Mae aelodau o’r cyhoedd yn ei chael yn anodd deall y broses CDLl ar y Cyd - yn enwedig yn sgil mabwysiadu diweddar CDU Gwynedd a gwaith paratoadol a wnaethpwyd ar y CDLl ym Môn?

Cydnabyddir ei fod yn sefyllfa anodd. Mae mesurau yn cael eu cymryd er mwyn hysbysu aelodau o’r cyhoedd fod gwaith yn cael ei wneud ar y CDLl ar y Cyd a gobeithir y bydd yna hysbyseb yn cael ei osod yn y papur cymunedol ynghyd a Newyddion Môn a Newyddion Gwynedd (y papur newydd am ddim sydd yn cael ei ddosbarthu i drigolion y Sir).

## 8. FFEITHIAU A FFIGYRAU CYCHWYNNOL O’R ASTUDIAETH TIR CYFLOGAETH

Adroddiad ar lafar gan NHD yn amlinellu’r prif faterion sydd yn deillio o’r Adolygiad Tir Cyflogaeth, a gynhaliwyd gan URS Scott Wilson.

Roedd canfyddiadau’r adroddiad yn seiliedig ar bum model rhagweld lefelau cyflogaeth:-

- **Sail gwaelodlin:** Y sefyllfa bresennol
- **Senario 1:** Sail gwaelodlin a dwy uned newydd yn cael ei adeiladu yn Wylfa
- **Senario 2:** Fel senario 1 ynghyd a swyddi ychwanegol yn cael ei greu drwy Bryn Cegin (Bangor) a Parc Cybi (Caergybi) ynghyd a pheth datblygiadau yn deillio yn sgil y rhaglen Ynys Ynni.
- **Senario 3:** Fel senario 2 ond yn honni y bydd rhaglen Ynys Ynni yn cyflawni ei lawn botensial.
- **Senario 4:** Fel senario 3 ond gydag effaith dirwasgiad ‘double dip’.

Fe ddefnyddiwyd y senarios uchod er mwyn rhagweld tyfiant cyflogaeth yn y dyfodol. Daeth yr adroddiad drafft i’r casgliad fod pob awdurdod angen edrych ar baratoi 56ha o dir neu 112ha yn gyfunol o dir cyflogaeth o safon fel lleiafswm yn ystod oes y Cynllun.

Awgrymwyd y dylid URS Scott Wilson ddod i gyflwyno eu canfyddiadau yn ystod cyfarfod nesaf o’r Panel.

## 9. DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFODYDD NESAF

Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.